## Cofnodion Cyfarfod Grŵp Trawsbleidiol Undeb y Gwasanaethau Cyhoeddus a Masnachol y Senedd a gynhaliwyd drwy Zoom ar 9 Tachwedd 2021

Yn bresennol: Mike Hedges AS (Cadeirydd); Heledd Fychan AS (Is-gadeirydd); Ryland Doyle (Staff Cymorth AS, Mike Hedges); Carys Morgan-Jones (Staff Cymorth AS); Siân Boyles (PCS); Marianne Owens (yr Undeb); Siân Wiblin (yr Undeb); Darren Williams (yr Undeb).

### 1. Croeso ac ymddiheuriadau

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Roedd ymddiheuriadau wedi dod i law gan Peredur Owen Griffiths.

### 2. Diweddariad anghydfod DVLA

Cafwyd diweddariad gan Undeb y Gwasanaethau Cyhoeddus a Masnachol (yr Undeb) ar y datblygiadau diweddaraf yn anghydfod diwydiannol yr Undeb gyda'r DVLA am ddiogelwch Covid yn y gweithle, a oedd wedi bod yn digwydd ers mis Chwefror. Roedd ail bleidlais yn cael ei chynnal gydag aelodau ar hyn o bryd, fel sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith, i ofyn am fandad newydd ar gyfer streicio pellach, gyda disgwyl i'r canlyniad gael ei gyhoeddi y diwrnod canlynol. Ar ddau achlysur, roedd thrafodaethau gydag uwch arweinwyr DVLA a'r Adran Drafnidiaeth wedi bod yn agos at gytundeb, dim ond i weinidogion anghytuno ar gytundeb ar yr unfed awr ar ddeg. Roedd sail cytundeb unwaith eto, a oedd yn cynnwys gwobr o £735 i'r holl staff, ond yn ôl pob golwg roedd y rheolwyr yn aros am ganlyniad y bleidlais cyn gwneud ymrwymiad pendant, felly roedd yn hanfodol bod yr Undeb yn cyflawni'r trothwy pleidleisio o 50 y cant sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith.

Er mwyn datrys yr anghydfod, roedd yr Undeb angen rheolwyr i ymrwymo i gynllun ar gyfer achosion cynyddol ar y safle, yn ogystal â chynllun adfer yn y gweithle. Ers ailgyflwyno staff a recriwtio staff cyfnod penodedig wedi hynny, roedd y niferoedd ar y safle wedi cynyddu 570 ac roedd achosion o Covid wedi codi'n gyflym ers yr haf, gyda chyfanswm yr achosion yn cyrraedd y 1,000 yr wythnos flaenorol.

Cam i'w gymryd: Yr Undeb i ddiweddaru'r Grŵp ar ganlyniad y bleidlais pan fydd ar gael.

### 3. Diweddariad ar hwb Trefforest yr Adran Gwaith a Phensiynau

Dywedodd yr Undeb, er gwaethaf ei bryder ynghylch adleoli gwaith a staff o chwe swyddfa bresennol i 'hwb' newydd yn Nhrefforest, fod yr Adran Gwaith a Phensiynau wedi bwrw ymlaen â'r prosiect a bod staff o'r ddwy swyddfa gyntaf – Merthyr Tudful a Gabalfa yng Nghaerdydd – bellach wedi trosglwyddo i'r safle newydd. Er bod y mwyafrif yn dal i weithio gartref ar hyn o bryd, mae'r rheolwyr yn ddiweddar wedi bod yn gwthio i'r holl staff ddechrau gweithio mewn modd hybrid erbyn diwedd y mis hwn, nad oedd wedi'i gytuno â'r Undeb. Yn ôl pob golwg, roeddent yn mynd yn groes i ganllawiau Llywodraeth Cymru y dylai pobl weithio gartref lle bynnag y bo modd. Roedd yr Undeb yn cynghori aelodau i ddatgan unrhyw bryderon am ddychwelyd i weithle corfforol – yn enwedig mewn perthynas â chyflwr iechyd hirdymor neu gyfrifoldebau gofalu – os oedd angen, fyddai'n eu cefnogi i herio unrhyw bwysau i wneud hynny. Dywedodd Heledd fod etholwyr yn gweithio i'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi cysylltu â hi, oedd wedi eu rhoi dan bwysau i ddychwelyd i'r swyddfa. Roedd adborth tebyg wedi dod drwy Aelodau eraill o'r Senedd, ac roedd o leiaf un ohonynt yn bwriadu tynnu sylw at wahaniaeth ymddangosiadol yr Adran oddi wrth ganllawiau Llywodraeth Cymru. Cafodd aelodau'r grŵp eu hannog i gefnogi'r pwynt hwn.

### 4. Cyflog a chydlyniad cyflogau 2021/22

Doedd yr Undeb ddim wedi derbyn ymateb cadarnhaol naill ai gan Lywodraeth y DU neu gan adrannau unigol i'w hawliad cyflog 2021/22, a oedd wedi ceisio cael gwobr costau byw o 10 y cant a gwelliannau mewn gwyliau blynyddol a'r wythnos waith, yn ogystal â trafodaethau ar draws cyflogwyr o fewn sectorau adrannol ac, yn y pen draw, ar draws y llywodraeth gyfan. Er iddo gyhoeddi diwedd ar rewi cyflogau'r sector cyhoeddus, prin oedd adolygiad gwariant ac araith y Canghellor ar y gyllideb ar 27 Hydref yn cynnwys manylion ac ni fu unrhyw ymrwymiad pendant i ddarparu arian ychwanegol gan y Trysorlys i ariannu gwobrau cyflog, ar adeg pan mae chwyddiant wedi bod yn rhedeg ar 3.1 y cant, gyda rhagolygon yn nodi 5 y cant erbyn dechrau 2022. Felly, roedd yr Undeb yn paratoi ar gyfer ymgyrch o'r newydd yn y flwyddyn newydd dros hyn, yn gysylltiedig â phryderon ychwanegol dros bensiynau a thaliadau diswyddo.

Roedd yr Undeb hefyd wedi cyflwyno cais am dâl sectoraidd ar gyfer 2021/22 i Rebecca Evans, yn cynnwys Llywodraeth Cymru a sawl corff hyd braich, gan fod annhegwch o ran cyflogau yn broblem o fewn sector datganoledig Cymru, yn ogystal â gwasanaeth sifil 'Whitehall'. Roedd yr Undeb yn siomedig bod y Gweinidog wedi gwrthod cymryd rhan mewn trafodaeth fargeinio gyda chyflogwyr, er bod swyddogion wedi hynny, mewn cyfarfod dilynol o'r Grŵp Sector Datganoledig (is-grŵp Cyngor Partneriaeth y Gweithlu ar gyfer Llywodraeth Cymru a chyrff noddedig), wedi awgrymu y byddai'r gwaith ar gydlyniad cyflogau bellach yn cael ei roi yn flaenoriaeth o'r newydd, yn dilyn ymrwymiad ar hyn o beth yn y rhaglen lywodraethu, a byddai'r Undeb felly yn dilyn ei ddyheadau drwy'r fforwm hwn. Yn y cyfamser, roedd Llywodraeth Cymru wedi defnyddio ei chronfeydd wrth gefn i roi gwobr i'w staff uniongyrchol ei hun, a oedd yn adlewyrchu'r hyn yr oedd Llywodraeth yr Alban wedi'i wneud wrth ddarparu codiad cyflog cymesur uwch i weithwyr ar gyflogau is. Ar hyn o bryd nid oedd yn glir a fyddai'r holl gyrff hyd braich yn cyflwyno gwobr yn unol â'r hyn a dalwyd i staff Llywodraeth Cymru ac a fyddai cyllid ychwanegol yn cael ei ddarparu i gefnogi hynny, pe bai angen.

**5. Cyllid sector diwylliant Cymru**

Roedd yr Undeb wedi cael cyfarfod gyda Dawn Bowden, Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon, ar 16 Medi, a oedd wedi rhoi cyfle i godi pryderon am danariannu hirdymor Llyfrgell Genedlaethol Cymru ac Amgueddfa Cymru. Roedd hi a'i swyddogion wedi cydymdeimlo â'r pwyntiau roedd yr Undeb wedi eu codi gan ddweud eu bod eisiau bod mewn sefyllfa i roi mwy o sicrwydd ariannol dros amser i'r Llyfrgell a'r Amgueddfa. Mae gohebiaeth ddilynol wedi cadarnhau'r bwriad i adeiladu'r refeniw ychwanegol a ddarparwyd ar gyfer 2021-22 i'r waelodlin ar gyfer 2022-23 ac roedd yr Undeb wedi cael cynnig cyfarfod pellach pan fo mwy o eglurder am gynlluniau Cyllideb y Llywodraeth.

Dywedodd Heledd wrth y cyfarfod y byddai uwch arweinwyr y Llyfrgell Genedlaethol a'r Amgueddfa Genedlaethol yn ymddangos gerbron Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol y Senedd y diwrnod wedyn a byddai'n manteisio ar y cyfle i godi'r mater o'u cyllid hirdymor.

**6. Y wybodaeth ddiweddaraf am gontractau allanoli Chwaraeon Cymru**

Yn ystod ei gyfarfod gyda Dawn Bowden ar 16 Medi, roedd yr Undeb hefyd wedi codi pryderon ynghylch y cynnig i allanoli safle gweithgareddau awyr agored Chwaraeon Cymru ym Mhlas Menai yng ngogledd Cymru – y cynnig sylweddol a'r diffyg ymgynghori â'r Undeb. Cydymdeimlodd y Dirprwy Weinidog â'r Undeb ac, ar ôl codi ein pryderon gyda'r rheolwyr, cynigiodd sicrwydd y byddai'n ymgynghori'n llawn â'r Undeb wrth i waith pellach gael ei wneud ar ddyfodol y cyfleuster ac na fyddai'n cefnogi unrhyw newid a fyddai'n groes i werthoedd Llywodraeth Cymru. Yn dilyn hynny, cafwyd nifer o gyfarfodydd gyda'r rheolwyr, ac mae proses wedi'i sefydlu ar gyfer cyfranogiad parhaus yr Undeb yn y drafodaeth ar ddyfodol y safle. Roedd y rheolwyr yn parhau i fod yn ymrwymedig i chwilio am 'bartner comisiwn' i gymryd rheolaeth o'r ganolfan, gan gynnwys cyflogi staff, tra byddai Chwaraeon Cymru'n cadw perchnogaeth dros y safle a'r adeiladau. Roedd yr Undeb wedi egluro mai'r dewis oedd i'r staff barhau i gael eu cyflogi gan Chwaraeon Cymru ond byddai'n

fodlon ymgysylltu'n adeiladol â'r broses. Ar hyn o bryd roedd disgwyl i'r gwahoddiad i dendro fynd allan erbyn diwedd mis Tachwedd.

Ategodd Mike ei wrthwynebiad i allanoli a dywedodd y byddai'n codi pryderon am y mater yn y Senedd o ran hyn.

**7. Diweddariad ar y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil**

Dywedodd yr Undeb fod gohebiaeth gyda'r Gweinidog Addysg a chynrychiolaeth ar y Bwrdd Prosiect wedi tawelu rhywfaint ar ei bryderon am yr ansicrwydd sy'n wynebu staff Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru yn sgil uno arfaethedig y sefydliad i'r Comisiwn newydd a fyddai'n cael ei sefydlu gan y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru). Roedd y Mesur bellach wedi'i gyflwyno yn y Senedd ond mae manylion pwysig yn ymwneud â'i oblygiadau o ran cyflogaeth yn parhau i gael eu penderfynu. Roedd yr Undeb yn parhau i geisio gwarantu nad oedd unrhyw ddiswyddiadau gorfodol.

**8. Ymgyrch Net Sero Carbon a Thrawsnewid Cyfiawn**

Roedd yr Undeb wedi ymgyrchu ers tro am weithredu radical i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd ac am gyfnod Trawsnewid Cyfiawn, i sicrhau y byddai gweithwyr a chymunedau yn cael eu diogelu drwy brosesau newid wrth fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd, gofyn am amddiffyniadau cymdeithasol ar gyfer incwm a phensiynau, buddsoddi mewn ailhyfforddi a sgiliau ac ymgysylltu â chynrychiolwyr gweithwyr. Yn y cyfnod cyn Cynhadledd COP26 yn Glasgow, roedd yr Undeb wedi bod yn rhan o Glymblaid COP26, clymblaid cymdeithas sifil o grwpiau ac unigolion oedd yn symud o amgylch cyfiawnder hinsawdd yn ystod COP26 ac roedd ei haelodau wedi cymryd rhan yn y gwrthdystiadau a ddigwyddodd o amgylch y DU, gan gynnwys sawl un yng Nghymru. Roedd yr Undeb hefyd wedi cefnogi menter TUC Cymru i fynd at gyflogwyr wrth drafod y camau y byddai angen iddynt eu cymryd i helpu i gyrraedd targedau Net Sero Cymru, sef goblygiadau'r mesurau hyn i staff a'r modd y gallai undebau fod yn rhan o drafodaethau parhaus ar bob lefel. Un o'r cyflogwyr yr oedd deialog adeiladol eisoes wedi dechrau â nhw oedd Comisiwn y Senedd.

**9. Unrhyw fater arall**

Rhoddodd yr Undeb adroddiadau byr ar lafar ar dri mater arall:

(a) Ni fu unrhyw ddatrysiad o hyd o'r mater ynghylch tua 140 o staff Llywodraeth Cymru yn gadael yn wirfoddol yn 2017 o dan delerau Cynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil 2016, a oedd wedi cael ei ddiddymu wedi hynny gan ddyfarniad gan yr Uchel Lys, gan achosi i'r gwasanaeth sifil ddychwelyd i gynllun blaenorol 2010. Roedd Llywodraeth Cymru bellach wedi gwneud cynnig o daliad ychwanegol i staff oedd wedi gadael tra bod cynllun 2016 mewn grym ond roedd y ffigwr a awgrymwyd dipyn yn is na'r swm ychwanegol fyddai staff wedi ei dderbyn o dan delerau 2010, ac roedd yr Undeb felly yn ystyried camau cyfreithiol o hyd.
(b) Roedd yr Undeb yn manteisio ar bob cyfle i gymryd rhan yn y drafodaeth ar ddatganoli pellach yng Nghymru, yn enwedig mewn perthynas â'r sector Cyfiawnder, a byddai'n cymryd rhan mewn digwyddiad a drefnwyd gan Liz Saville Roberts AS ddiwedd mis Tachwedd, i nodi ail ben-blwydd adroddiad Comisiwn Thomas.
(c) Roedd Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi wedi rhoi'r gorau i'w gynllun i addurno ei adeilad yn Sgwâr Canolog, Caerdydd â baner Jac yr Undeb enfawr, yr oedd yr Undeb a llawer o rai sefydliadau eraill wedi codi gwrthwynebiadau cryf iddi.